Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd Nos Fawrth, 3ydd o Ebrill 2018 yn Neuadd Pentref Carmel

Minutes of the Cemeteries & Property Committee held Tuesday, 3rd of April 2018 at Carmel Village Hall

Yn bresennol - Present
Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Hywel J Owen; Gwyn Owen Jones; Helen Hughes David Roberts Clerc y Cyngor / Council Clerk.
Yn bresennol ar gyfer eitem 5 - Dai Lloyd Evans a Pat Evans o'r Fron, Cyfarwyddwyr Canolfan y Fron

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Etholwyd Cyng. Helen Hughes I'r gadair yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Cyng. David M Lewis. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Aeth ymlaen at y rhaglen yn syth.

Cllr. Helen Hughes was elected to chair the meeting in the absence of Committees Chairman. She welcomed all that was present and proceeded stright to the evenings business

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Alan Patterson; Cyng. David M Lewis; Cyng. Dyfed Williams, Cyng. Alun Wyn Jones

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.
No decleration of personal o'r prejudical interest was made by those present

4 Tender Cynnal Tiroedd Ysgolion a Gwagio Biniau'r Mynwentydd / Tender Playing Fields Ground Maintenance and Emptying Bins in the Cemeteries

Atgoffwyd yr aelodau o benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod 19 o Fawrth sef –

i) Fod y Cyngor yn cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo gan nad oedd gan "Cwmni 1" ddatganiad o sut y bwriedir gwaredu'r sbwriel
ii) Fod y Clerc yn gofyn I "Cwmni 1" am eglurhad o'r sefyllfa
iii) Fod y Cyngor yn rhoi hawl gweithredu i'r Pwyllgor.

	Cwmni 1	Cwmni 2 2
Torri Gwair Cae Ysgol Carmel – 9 toriad	£1,080	£900
Torri Gwair Cae Ysgol Fron – 9 toriad	£1,080	£900
Gwagio biniau Mynwentydd x 3 x 26 wythnos	£1,300	£2,400
Cyfanswm y Tender	£3,460	£4,200
Pris os cytundeb 3 mlynedd	£3,300	£4,000
Pris un toriad Cae Carmel	£120	£100
Pris un toriad Cae Fron	£120	£100
Pris gwagio bin - un ymweliad i'r tair mynwent	£50	£90
Datganiad o Waredu Sbwriel	na	na
Materion eraill	Dim Trwydded Cario	Tystiolaeth o Drwydded

	Gwastraff	Cario Gwastraff wedi ei dderbyn

Adroddwyd gan y Clerc fod Cwmni 1 wedi cysylltu yn datgan fod cais wedi ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru am Drwydded Cario Gwastraff.

Yn ychwanegol cafwyd cadarnhad mai ym Melin Plas Du y bydd y gwastraff yn cael ei gludo

Adroddwyd gan y Clerc fod derbyn pris ar gyfer cae pêl-droed Y Fron yn amodol ar y drafodaeth gydag aelodau Canolfan y Fron a phenderfyniad y Cyngor i brydlesu'r tir ai peidio

Argymhelliad i'r Cyngor –

i) Fod y Cyngor derbyn penderfyniad y Pwyllgor i gynnig y gwaith i "Cwmni 1" i gynnal y caeau chwarae a gwagio biniau

ii) Fod y Cyngor yn cynnig cytundeb dros dro ar y cychwyn yn amodol os bydd y Cwmni yn anfon copi o'r Drwydded Cario Gwastraff i'r Cyngor

iii) Fod y Cyngor yn derbyn penderfyniad y Pwyllgor i beidio cynnig y gwaith ar gyfer cae pêl-droed Y Fron hyd nes y bydd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â throsglwyddo'r cae cyfarwyddwyr Canolfan Y Fron.

Recommendation to the Council

i) For the Council to accept the Committee' decision to offer the tender to Company 1

ii) For the Council ta accept the decision to offeronly a temporary contract until a copy of the Waste Carrier Certificate is received

iii) For the Council to accept the Committees decision not to offer the work on the Fron Playing Field until the Council decides to accept the offer of Canolfan y Fron to lease the land.

5 Gohebiaeth gan Grŵp Datblygu'r Fron - Cae Pêl Droed / Correspondence from the Fron Development Group - Footblall Field

Croesawyd dau aelod o Ganolfan y Fron I'r cyfarfod sef Dai Lloyd Evans, un o gyfarwyddwyr y Canolfan y Fron a Pat Evans - Cyfarwyddwr Cyllid Canolfan y Fron.. Roedd y Pwyllgor yn awyddus trafod sefyllfa cae pêl-droed Y Fron yn dilyn yr ohebiaeth isod gan Dai Lloyd Evans

You know that we are extraordinarily grateful for your agreement to take ownership of the field to ensure its continued use as community space. However, we both recognise that this was a tactical move to protect the field in the event of the school and grounds being sold on the open market. Now that we have secured funding to refurbish the school, but have not secured funding to landscape the field, the Community Council has inherited the responsibility/liability for the field.

It maybe that you would prefer, or are considering, divesting yourselves of that responsibility/liability. On the other hand, you may not be thinking along these lines. If it is something that does become the subject of discussion, may we ask that the Community Council give consideration to transferring ownership of the field to Canolfan Y Fron. Perhaps you could have a chat amongst yourselves and let me know your thoughts.

Cafwyd diweddariad ar y datblygiadau gan Dai a Pat

Eglurwyd

- fod Canolfan y Fron yn endid ar wahân i Grŵp Datblygu'R Fron.
- bydd gan y Ganolfan fwy o sgôp i ddenu grantiau oherwydd fwy o adnoddau.
- bydd y cae yn trosglwyddo i gyfarwyddwyr Canolfan Y Fron
- bydd y Ganolfan yn sicrhau mynediad i bawb
- y Ganolfa fydd yn cynnal y cae - arbed arian i'r Cyngor Cymuned

- y brydles eisoes mewn lle - angen newid yr enw o Grŵp Datblygu Y Fron i Ganolfan y Fron yn unig

7:50
Rhoddwyd gair o ddiolch i'r ddau gan y Cadeirydd, ac yn eu llongyfarch ar y gwaith anhygoel sydd yn cael ei gyflawni yno.

Sylwadau Aelodau –
GOJ - dim newid yn y sefyllfa i'r cynnig gwreiddiol. Cyngor yn arbed arian cynnal y cae. Angen sicrhau fod y brydles yn datgan fod rhaid cynnal y cae i safon ynghyd a mynediad i bawb

Argymhelliad i'r Cyngor –

i) ***Fod y Cyngor yn cynnig y cae i Ganolfan y Fron ar brydles o 99 mlynedd***
ii) ***Fod y Cyngor yn sicrhau fod y brydles yn gwarantu defnyddio'r cae i'r gymuned a bod y cae yn cael ei gynnal i safon dderbyniol***
iii) ***Fod y Cyngor yn cytuno i drosglwyddo'r cae i'r Ganolfan ar y cyfle cyntaf***

Recommendation to the Council –

i) ***For the Council to offer the land to Canolfan Y Fron on a 99 year lease***
ii) ***For the council to ensure that the lease agreement includes access to everyone in the Community and that the land is adequately maintained***
iii) ***For the Council to lease the land to Canolfan y Fron at the earliest possible opportunity***

6 Llochesi Bws Diweddariad – Bus Shelters - Update

Adroddwyd gan y Clerc –

- Lloches Cae'r Moel – gwaith wedi cychwyn – disgwyl gorffen erbyn diwedd y mis
- Lloches Parc Carmel - Tecwyn Hughes am gwblhau'r cynlluniau unwaith y bydd y gwaith yn Cae'r Moel wedi ei gwblhau

Argymhelliad i'r Cyngor – Fod y Cyngor derbyn y wybodaeth

Recommendation to the Council – For the Council to accept the information.

7 Ciosg Cilgwyn – Cilgwyn BT Kiosc

Nid oedd Mr a Mrs Whomsley yn bresennol.

Gohiriwyd yr eitem – Item deferred

Daeth y cyfarfod i ben am 8:05 yr hwyr / Meeting closed at 8.05pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	